## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 26 Ebrill 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cwestiwn a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno system anrhydeddau yng Nghymru. (WAQ42563)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Beth yw cyfanswm y buddsoddiad cyhoeddus yn y cynlluniau Technium yng Nghymru, a faint o swyddi newydd a grëwyd yn sgil hynny. (WAQ42562)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i reoliadau rheoli llwynogod mewn tir a redir gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. (WAQ42564)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau gofal y tu allan i oriau swyddfa. (WAQ42558)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud yn union faint o gyllid a glustnodwyd ar gyfer Her Iechyd Cymru, ac a wnaiff ef fanylu ar y cynlluniau newydd a ddatblygwyd dan Iechyd Cymru fel rhan o'r cyllid ychwanegol hwnnw. (WAQ42559)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses a welodd simvastatin yn dod yn feddyginiaeth y gellir ei chael dros y cownter. (WAQ42560)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddweud yn union faint o fyfyrwyr gyda chyfeiriad yng Nghymru a dderbyniwyd ar y cwrs gradd gyntaf mewn Meddygaeth yng Nghaerdydd, yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru neu ym Mhrifysgol Caerdydd, ym mhob blwyddyn academaidd er 1999.